*(SYLWCH: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EI GADARNHAU GAN Y CYD-BWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)*

PARTNERIAETH

Cyd-Bwyllgor Partneriaeth

Dydd Gwener, 6 Hydref 2023

**Rhith-Gyfarfod - 10.05yb - 10.51yb**

**CADEIRYDD:** Y Cynghorydd Robert Smith, Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu (Aelod â Phleidlais)

| **Aelodau â Phleidlais** | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Glynog Davies | Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, (Cyngor Sir Caerfyrddin) |
| Y Cynghorydd Guy Woodham | Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, (Cyngor Sir Penfro) |
| **Y Prif Weithredwr** | |
| Mr Martin Nicholls | Cyngor Abertawe (Prif Weithredwr Arweiniol) |
| **Cyfarwyddwyr Addysg** | |
| Mr Gareth Morgans | Cyngor Sir Gaerfyrddin (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol) |
| Mr Steven Richards-Downes | Cyngor Sir Penfro – (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol) |
| Ms. Helen Morgan-Rees | Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Cyfarwyddwr Arweiniol) |
| **Swyddogion** | |
| Mr Ian Altman | Swyddog Arweiniol Partneriaeth |
| Ms. Linda Rees Jones | Swyddog Monitro (Cyngor Sir Caerfyrddin) |
| Mrs Sharen Davies | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Mr Matthew Holder | Pennaeth Archwilio Mewnol /Partneriaeth (Cyngor Sir Penfro) |
| Mrs Sarah Edwards | Dirprwy Swyddog A151 (Cyngor Sir Penfro) |
| Mrs Andrea Davies | Estyn |
| Mrs. Ruth Lee | Rheolwr Busnes Partneriaeth |
| Mrs. Kelly Evans | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd, cymryd nodiadau) |
| Mrs. Siwan Rees | Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu) |
| Mr Martin Runeckles | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwe-ddarlledu) |
| **Sylwedyddion** | |
| Y Cynghorydd Lyndon Jones | Cadeirydd Grŵp Craffu'r Cynghorwyr |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Darren Price Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Wendy Walters, Prif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin, y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe a'r Cynghorydd David Simpson, Arweinydd Cyngor Sir Penfro.

Gan fod y Cadeirydd a'r dirprwyon wedi cyflwyno ymddiheuriadau, cafwyd pleidlais i'r Cynghorydd Robert Smith gadeirio'r cyfarfod heddiw.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. COFNODION CYFARFOD PARTNERIAETH AR 23 MEHEFIN 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2023 gan eu bod yn gywir.**

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

Nid oedd dim materion yn codi o'r Cofnodion.

## 5. OPSIWN O RAN ENWEBU AELODAU CYD-BWYLLGOR PARTNERIAETH A HAWL PLEIDLEISIO

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor adroddiad i ddiwygio'r dewis o aelod â phleidlais ar Gyd-bwyllgor Partneriaeth. Byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r tri awdurdod lleol ac yn rhoi'r dewis iddynt enwebu'r aelod Cabinet â'r portffolio addysg fel yr aelod â phleidlais yn hytrach na'u Harweinydd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod geiriad diwygiedig y Cylch Gorchwyl (fel yr atodwyd i'r adroddiad) yn cael ei gymeradwyo.**

## 6. LLYTHYR GAN GADEIRYDD GRWP CYNGHORWYR CRAFFU PARTNERIAETH

Derbyniodd y Cydbwyllgor lythyr gan Gadeirydd y Grŵp Cynghorwyr Craffu - Partneriaeth yn myfyrio ar y sylwadau yn dilyn cyfarfod diwethaf y Grŵp ar y 19 Mehefin, 2023.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y llythyr.**

## 7. ADRODDIAD ARIANNOL PARTNERIAETH 2023-24

Cafodd y Cydbwyllgor ddiweddariad ar sefyllfa ariannol Partneriaeth fel yr oedd yn Awst 2023.

Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth fanwl benodol mewn perthynas â'r canlynol:

- Cytundebau Lefel Gwasanaeth

- Cyfraniadau Awdurdod Lleol
- Monitro'r Gyllideb - Awst 2023
- Incwm Grant ar gyfer 2023-24
- Risgiau a Chyfleoedd

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**
**7.1 nodi adroddiad ariannol mis Awst 2023**
**7.2 nodi'r alldro a ragwelir ar gyfer 2023-24**

**8. BARN SICRWYDD FLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL PARTNERIAETH AR GYFER 2022-23**

Darparwyd i'r Cyd-bwyllgor y farn sicrwydd flynyddol ynghylch effeithlonrwydd Trefniadau

Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol wrth y pwyllgor bod gan Partneriaeth fframwaith cymedrol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**
**8.1 bod yr adroddiad yn cael ei nodi;**
**8.2 bod y Farn Sicrwydd Flynyddol ar gyfer 2022-23 yn cael ei nodi**

**9. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL PARTNERIAETH 2022-23**

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad blynyddol o ran trefniadau llywodraethu ar gyfer Partneriaeth am 2022-23.

Rhoddodd yr adolygiad Archwilio Mewnol sgôr sicrwydd cymedrol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheoli risg a rheolaeth ariannol sydd ar waith. Mae'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach wedi'u cynnwys yn y blaenoriaethau ar gyfer gwella Cynllun Gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol Partneriaeth am 2022-23.**

**10. RHAGLEN WAITH ARCHWILIO MEWNOL 2023-24**

Cafodd y Cyd-bwyllgor Raglen Waith Archwilio Mewnol 2023-24 Partneriaeth i'w cymeradwyo.

Paratowyd y Rhaglen Waith yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Cafodd y rhaglen ei datblygu mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Addysg Arweiniol, y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a Swyddog Arweiniol Partneriaeth.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor y byddai gwaith maes Archwilio Mewnol yn dechrau ym mis Chwefror 2024 ac ar ôl dod i ben, byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi i swyddogion i'w ystyried. Ar ôl darparu adborth i'r Archwiliad Mewnol, bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn ystod tymor yr Haf.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch ehangder y cwmpas, dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor mai dull sampl ar draws y sefydliadau, fyddai'r opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio, gan fod hyn yn golygu bod modd cyflawni'r gwaith.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Archwilio Mewnol 2023/24.**

## 11. PERFFORMIAD PARTNERIAETH YN YSTOD CYLCH CYNLLUN BUSNES BLWYDDYN ARIANNOL 2023-24

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor adroddiad yn rhoi gwybodaeth am ddarpariaeth a pherfformiad cynllun busnes blwyddyn ariannol 2023-24.

Mae'r cynllun busnes yn cael ei fonitro'n chwarterol a nodwyd bod bron pob cam gweithredu ar y trywydd iawn i'w gyflawni'n llawn erbyn mis Mawrth 2024.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor am feysydd cymorth i ysgolion y mae Partneriaeth yn eu cynnig, yn unol â disgwyliadau'r cynllun busnes. Caiff meysydd datblygu ac adnoddau eu trafod yn rheolaidd fel rhan o'r Grŵp Strategaeth Cyfarwyddwr.

Roedd y Cyd-bwyllgor o'r farn fod hwn yn ddarn diddorol ac allweddol o waith wrth symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**
**11.1 bod y diweddariad yn cael ei nodi**
**11.2 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn**

## 12. AROLWG BARN RHANDDEILAID PARTNERIAETH (AROLWG NET PROMOTER)

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad yn cynnwys ymateb i arolwg barn rhanddeiliaid Partneriaeth (Arolwg Net Promoter) o dymor yr haf 2023.

Mynegodd y Cyd-bwyllgor siom ynghylch y nifer isel o Benaethiaid a oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg. Mewn ymateb, dywedwyd wrth y pwyllgor fod hwn oherwydd nifer o resymau, gan gynnwys Camau Gweithredu Heb Streicio. Effeithiodd hyn yn negyddol ar y gyfradd gwblhau a phenderfynwyd ymestyn yr arolwg i grwpiau penodol.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor y byddai Arolwg Net Promoter yn cael ei gynnal yn flynyddol ar ddiwedd y cylch cynllunio busnes ym mis Mawrth. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu rhannu â'r holl staff yn Partneriaeth a byddai cynllun gweithredu yn cael ei gyd-adeiladu a byddai cyswllt maes o law yn cael ei wneud â’r rhai a nododd eu bod yn hapus i roi adborth pellach o fewn mis gwaith ar ôl cwblhau'r arolwg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**
**12.1 bod y diweddariad yn cael ei nodi**
**12.2 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn**
**12.3 cytuno ar yr arolwg blynyddol ar ddiwedd cylch y cynllun busnes**

## 13. COFRESTR RISGIAU PARTNERIAETH

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor broffil risg cyffredinol y rhanbarth. Nodwyd bod y risgiau canlynol o debygolrwydd canolig ac effaith uchel:

- Prydlondeb Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid
- Diffyg Eglurder o ran swyddogaethau Partneriaeth

Bu gostyngiad yn Risg 2 oherwydd yr arolygiadau ar draws yr awdurdodau lleol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**
**13.1. Nodi'r proffil risg**
**13.2. Bod yr adroddiad risg yn cael ei dderbyn**

## 14. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTERIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

_________________________ ____________________

**CHAIR** **DATE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol